**Adroddiad i:** Cyngor

**Dyddiad y Cyfarfod:** 23 Mai 2017

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**Awdur yr Adroddiad:** Gary Williams

**Teitl:** **Penodi aelod dros dro i Gyngor Tref Bodelwyddan**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn ynghylch penodiad dros dro aelod i Gyngor Tref Bodelwyddan (y Cyngor Tref).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

**Nid oes gan y Cyngor Tref nifer digonol o aelodau yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ddiweddar i allu gweithredu a gwneud penderfyniadau yn gyfreithlon.** Mae gan y Cyngor Sir y pŵer i wneud penodiad dros dro i'r Cyngor Tref i alluogi iddo weithredu'n gyfreithlon.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn awdurdodi gwneud Gorchymyn yn unol ag a91 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer penodi'r Cyng. Richard Mainon dros dro i Gyngor Tref Bodelwyddan, i alluogi'r Cyngor Tref weithredu'n gyfreithlon ar yr amodau a nodir yn y gorchymyn drafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r Cyngor Tref yn cynnwys 12 sedd. Y cworwm sydd ei angen er mwyn i'r Cyngor Tref allu gweithredu'n gyfreithlon yw 4.

**Yn yr etholiadau llywodraeth leol ddiweddar, derbyniwyd 4 enwebiad erbyn dyddiad cau derbyn enwebiadau.** Nid oedd angen cystadleuaeth gan fod y nifer a enwebwyd yn llai na'r nifer y seddi a oedd ar gael. Etholwyd y 4 enwebai yn briodol.

**Yn dilyn yr etholiad, nododd un o'r rheiny a etholwyd na fyddai'n gallu derbyn y sedd ar y Cyngor Tref, ac nid oedd wedi llofnodi'r datganiad o dderbyn swydd.** Mae hyn yn golygu bod gan y Cyngor Tref aelodaeth o 3 a ni all felly weithredu'n gyfreithlon na gwneud penderfyniadau.

Mae a91 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os oes seddi gwag ar gyngor tref neu gyngor cymuned a ni all weithredu'n gyfreithlon, gall y Cyngor Sir benodi, yn ôl

gorchymyn, unigolion i lenwi pob un neu unrhyw seddi gwag tan fydd cynghorwyr eraill wedi'u hethol neu gyf-ethol a chymryd y swydd.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r penderfyniad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r penderfyniad. Bydd yn cynorthwyo gwasanaethau eraill i gael Cyngor Tref sydd yn gweithredu'n gyfreithlon a fydd yn ymgynghori ac yn ymgysylltu mewn perthynas â swyddogaethau penodol.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ni ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r penderfyniad hwn. Ymgynghorwyr â Chlerc y Cyngor Tref a'r aelod lleol, ac maent o blaid y cam gweithredu hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol i'r cyngor sy'n berthnasol â gwneud y penodiad dros dro.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**Mae risg os na fydd y Cyngor yn gwneud y penodiad hwn, na fydd y Cyngor Tref yn gallu gweithredu'n gyfreithlon i gyfethol aelodau ychwanegol neu i gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau statudol.**

11. **Grym i wneud y Penderfyniad**

a.91 Deddf Llywodraeth Leol 1972